Tîm Datblygu ASA Cenedlaethol
National ASD Development Team
www.ASDinfoWales.co.uk

# Adnoddau









www.ASDinfoWales.co.uk

Llywodraeth Cymru
Welsh Government
CLILC • WLGA
GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

**Ni yw'r Tîm Datblygu ASA Cenedlaethol, rhan o'n swydd yw datblygu a darparu adnoddau mewn partneriaeth er budd unigolion awtistig, rhieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Mae ein gwefan yn rhan allweddol o'n darpariaeth ac yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o Gynllun Gweithredu Strategol ASA Cymru. Mae'n cynnwys ystod eang o wybodaeth, cyngor ac adnoddau ar gyfer pobl awtistig a'r sawl sy'n eu cynorthwyo, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol.**

## Tyfu gydag Awtistiaeth

"Tyfu gydag Awtistiaeth" yw'r adran ar ein gwefan (byddwch yn dod o hyd i'r rhan hon dan y tab 'Rhieni a Chynhalwyr') sydd wedi ei hanelu at rieni plant a phobl ifanc ieuengach. Yn yr adran hon, byddwch yn dod o hyd i ystod o adnoddau i'ch helpu chi.

'Awtistiaeth: Canllaw ar gyfer Rhieni a Chynhalwyr yn Dilyn Diagnosis' yw'r llyfr sy'n rhoi trosolwg o awtistiaeth, yn darparu cyngor ac yn rhannu straeon rhieni eraill. Gallwch ei lawrlwytho yma:
**www. ASDinfoWales.co.uk/resource/Awtistiaeth-Welsh-download.pdf**

Rydym hefyd yn cynnig cyfres o 5 ffilm fer sy'n cynnig trosolwg o awtistiaeth Gallwch weld y rhain yma:
**www.ASDinfoWales.co.uk/asd-videos-for-parents-carers**

## Cyfoedion a Brodyr a Chwiorydd

Gall cyfoedion a brodyr a chwiorydd ei chael yn anodd i ddeall ymddygiad plentyn sydd ag awtistiaeth. Mae'r animeiddiad 'Teifi a'i Ffrindiau' yn dangos i blant ifanc sut i fod yn garedig a dangos goddefgarwch at eu cyfoedion sydd ag anghenion ychwanegol. Gallwch weld hyn yma:
**www.ASDinfoWales.co.uk/teifi-and-friends-2**

Mae 'Archarwyr Awtistiaeth' ar gael fel llyfr straeon neu comic antur byr - arddull stori sy'n helpu datblygu dealltwriaeth ymhlith plant a gallant hyd yn oed lofnodi addewid a derbyn tystysgrif bersonol unwaith eu bod wedi darllen y llyfr. Gallwch weld hwn yma:
**www.ASDinfoWales.co.uk/autism-superhero**

## Pecynnau Cymorth Cynllunio

Mae llawer o blant gydag awtistiaeth yn ei chael yn anodd cynllunio, paratoi ag ymdopi gyda newidiadau. Yn aml gall defnyddio cynllunwyr helpu'r plentyn i baratoi am y diwrnod i ddod ac felly teimlo'n llai pryderus. Gallwch greu cynllunydd cardiau lluniau drwy ddefnyddio ein pecyn ar:
**www.ASDinfoWales.co.uk/picture-cards**
neu ar gyfer plant hŷn, gallwch ddefnyddio ein ap Cynlluniwr ASA ar ffôn neu dabled.



## Proffil Personol

Gall proffiliau personol fod yn ddefnyddiol i alluogi'r unigolion pwysig hynny mewn bywyd plentyn weld cryfderau ac anawsterau plentyn a deall sut i'w cefnogi mewn ffordd hygyrch iawn. Gallwch greu proffil personol plentyn ar:
**www.ASDinfoWales.co.uk/child-profile**

## Cyngor ar faterion penodol

Mae ystod o daflenni cyngor ar gael gennym, sy'n cynnig cynghorion ynghylch anawsterau cysgu, ymddygiad a phryder, ymhlith pethau eraill. Gallwch gael mynediad at rhain yma:
**www.ASDinfoWales.co.uk/advice-sheets**



## "Weli Di Fi?"

Cynllun codi ymwybyddiaeth i hyrwyddo dealltwriaeth a'r gallu i dderbyn awtistiaeth, ymysg cymunedau yng Nghymru er mwyn gwella mynediad at gyfleusterau a gostwng y stigma y mae nifer o bobl sydd ag awtistiaeth, a'u rheini a'u cynhalwyr yn ei brofi. Gallwch ddod i wybod mwy am y cynllun a gwylio ein fideo hyrwyddo yma:
**www.ASDinfoWales.co.uk/can-you-see-me**

## Byw gydag Awtistiaeth

Mae 'Awtistiaeth: Canllaw i Oedolion yn dilyn Diagnosis' yn cynnig cyngor ac awgrymiadau ar gyfer bywyd bob dydd i oedolion sydd wedi cael diagnosis o anhwylder ar y sbectrwm awtistig.
**www.ASDinfoWales.co.uk/resource/WEB-Autism-Booklet-Welsh.pdf**

## Proffil Personol

Creu 'proffil personol' i ddangos cryfderau ac anawsterau unigolyn a chynnig cynghorion ar ddulliau o'u cynorthwyo. Gallwch greu proffil personol plentyn ar:
**www.ASDinfoWales.co.uk/adult-profile**

## Geirfa Idiomau

Chwilio am idiomau a brawddegau cyffredin i ddarganfod beth yw eu hystyr. Gallwch weld yr eirfa yma:
**www.ASDinfoWales.co.uk/idioms-glossary**

## Cymorth i Ysgolion – Dysgu gydag Awtistiaeth

Mae ein 'rhaglen Blynyddoedd Cynnar' yn gynllun hyfforddi i helpu staff ddatblygu eu gwybodaeth a sgiliau i gefnogi plant ifanc gydag awtistiaeth. Gall lleoliadau gael mynediad am ddim at hyn ac maent i'w cael yn:
**www.ASDinfoWales.co.uk/early-years**

Gall ysgolion ddatblygu eu gwybodaeth a sgiliau i gefnogi plant gydag awtistiaeth drwy gael mynediad i'n 'rhaglen hyfforddiant ar gyfer ysgolion cynradd'. Gall ysgolion gael mynediad am ddim i hyn ac maent i'w cael yn:
**www.ASDinfoWales.co.uk/primary-school**

Mae'r 'rhaglen Ysgol Uwchradd' yn gynllun hyfforddi ar gyfer staff ysgolion uwchradd i ddatblygu eu gwybodaeth a gwahaniaethu eu haddysgu i gefnogi pobl ifanc sydd ag awtistiaeth. Mae hyn hefyd yn cynnwys y wers 'Sgilti' ac adnoddau ategol i gefnogi cyfoedion i ddeall awtistiaeth. Gall ysgolion gael mynediad am ddim i hyn ac maent i'w cael yn:
**www.ASDinfoWales.co.uk/secondary-school**

## Cynllun Ardystio Ymwybyddiaeth am ASA Cenedlaethol

'Cynllun e-ddysgu' sy'n ceisio gwobrwyo'r rhai hynny sy'n ymgymryd â rhywfaint o ddysgu am Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig. Llwyddwyd i gwblhau un, bydd tystysgrif personol yn cael ei chreu i chi ei llwytho i lawr. Gall sefydliadau ymgeisio i ddod yn 'sefydliad sy'n ymwybodol o ASA' pan fod y rhan fwyaf o staff wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth am ASA. Gallwch gael mynediad at y cynllun yma:
**www.ASDinfoWales.co.uk/asdaware**

## Chwaraeon a Hamdden

Nod y cynllun 'Chwaraeon a Hamdden' yw cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth am anghenion pobl sydd ar awtistiaeth i gefnogi mynediad i weithgareddau chwaraeon a hamdden.
**www.ASDinfoWales.co.uk/leisure-staff**

## Staff tai

Y 'cynllun e-ddysgu Tai' i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anawsterau ac anghenion y gallai pobl ag awtistiaeth eu hwynebu yn y maes tai. Mae'r adnodd hwn ar gael yn: **www.ASDinfoWales.co.uk/housing-provider-scheme**

## Byw gydag Awtistiaeth

Mae 'Awtistiaeth: Canllaw i Oedolion yn dilyn Diagnosis' yn cynnig cyngor ac awgrymiadau ar gyfer bywyd bob dydd i oedolion sydd wedi cael diagnosis o anhwylder ar y sbectrwm awtistig. **www.ASDinfoWales.co.uk/working-with-autism**

## Pecynnau Cymorth Clinigwyr ac Ymarferwyr

Cyfres o 'becynnau cymorth' yn seiliedig ar ganllawiau NICE, i gefnogi gweithwyr proffesiynol yn eu hymyriadau diagnosteg ac ar ôl diagnosteg. Mae'r pecynnau cymorth yn cynnwys: Gwybodaeth ar gyfer atgyfeirwyr, gan gynnwys 'Awtistiaeth: ydych chi'n adnabod yr arwyddion?' Posteri, Gwybodaeth ac adnoddau i gefnogi asesiadau diagnosteg, taflenni gwybodaeth ar gyfer unigolion gydag ASA a rhieni / cynhalwyr, pecynnau cynllunio Asesiadau, siartiau Ymddygiad, Taflenni cyngor, Gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer ymyriadau. Gallwch weld y pecynnau cymorth llawn yn: **www.ASDinfoWales.co.uk/specialist-staff-in-education-health-and-social-care**

## Cadarnhaol ynghylch Gweithio gydag Awtistiaeth

Cynllun ar gyfer y rhai hynny sy'n gadarnhaol ynghylch cyflogi unigolion gydag awtistiaeth. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys siarter i lofnodi, taflenni cyngor i reolwyr a chydweithwyr a chynllun hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn AD. Gallwch weld am y cynllun hwn yn: **www.ASDinfoWales.co.uk/employers**



## Ymarferwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cyflwyniad drwy dystysgrif i adnodd e-ddysgu awtistiaeth ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhain i'w cael yn: **www.ASDinfoWales.co.uk/health-and-social-care**



## Cysylltwch â ni

**Email:**
ASDinfo@WLGA.gov.uk

**Facebook:**
ASDinfoWales

**Twitter:**
@ASDinfoWales